

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 30
IONAWR 2010

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr yr "Heuwr" ac wrth i ni gamu i ddirgelwch blwyddyn newydd bydded i bawb ohonom dderbyn yn helaeth o bresenoldeb ac arweiniad yr Arglwydd.

Mae'r flwyddyn newydd yn adeg pan fyddwn yn hoff o wneud addunedau. Mae'n ddechreuad newydd sydd yn medru bod o gymorth i ni os ydym am roi'r gorau i ryw hen arfer neu am fabwysiadu rhyw arfer newydd yn ein bywydau. Ar ddechrau pob blwyddyn byddwn yn clywed am sawl un yn addo ceisio rhoi'r gorau i ysmygu, colli pwysau neu o leiaf bwyta llai o siocled. Bydd eraill am ymroi i ddysgu iaith newydd, ymuno â'r gampfa neu fynd am dro o leiaf unwaith yr wythnos os nad bob dydd. Os ydych wedi gwneud addewid blwyddyn newydd, mawr obeithiaf y cewch rwydd hynt i gadw at yr addewid beth bynnag y bo. Daliwch ati!

Ac ar Sul cynta'r flwyddyn eleni cawn y fraint o glywed dau berson ifanc, sef Derfel a Manon Reynolds yn cyflwyno eu haddewidion wrth iddynt gael eu bedyddio ym Methel a'u derbyn yn gyflawn aelodau yn Horeb. Mae hyn yn destun llawenydd i bawb ohonom ac fe fydd y diwrnod yn siŵr o ddwyn i gof yr addewidion hynny a wnaethom ninnau wrth inni ddod yn aelodau o'r eglwys. Bydd sawl un ohonom yn dwyn i gof yr addewidion a wnaed gennym yn Horeb neu ym mha eglwys bynnag y cawsom ein magu neu ein dwyn i ffydd. Fe fydd gennym atgofion arbennig o'r diwrnod hwnnw. Pwy oedd y gweinidog? Pwy arall oedd yn cael eu bedyddio neu'u derbyn ar yr un pryd? Sut ddiwrnod oedd hi? Mae'n bur debyg y byddwn wedi anghofio am fanion y dydd ei hun ond fe fyddwn yn siŵr o gofio'r achlysur ac efallai fod gennym Feibl neu Destament Newydd a roddwyd inni i nodi'r achlysur. Ac wrth inni groesawu Derfel a Manon yn aelodau a dwyn i gof yr adeg pan ddaethom ninnau yn aelodau y mae nid yn unig yn gyfle i ni gofio ein haddewidion ond yn gyfle hefyd inni i'w hadnewyddu.

Gadewch i ninnau felly ar ddechrau 2010, wrth i ni rhoi pob cefnogaeth i Derfel a Manon, adnewyddu yr addewidion a wnaethom wrth ddod yn aelodau o'r eglwys: cyffeswn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd; edifarhawn am ein pechodau ac addunedwn drwy ras Duw i fod yn ffyddlon i'r Iesu a gwneud ei bobl ef yn bobl inni a bod yn ffyddlon yng nghymdeithas ei Eglwys a'i chenhadaeth.

I ti fy hunan rof
Drwy broffes lân, ddi-lyth,
A boed ei hystyr yn fy nghof
Ac yn fy nghalon byth.

(Llifon)

Blwyddyn Newydd Dda a bydded inni ddal ati gyda'n holl addewidion,
Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR MIS IONAWR 2010

| Cyhoeddwr y Mis :William Howells | Organydd y mis : Ceris Gruffudd | |
|---|---|---|
| 3 Ionawr<br>10.00yb<br>2.30yp | <br>Oedfa Fedydd ym Methel<br>Oedfa Gymun | Bwrdd y Cymun: Rhiannon a Carwen |
| 10 Ionawr 10.30 | Oedfa Deuluol Gweinidog<br>Dewch ag un o'ch anrhegion Nadolig i'r oedfa! | |
| 17 Ionawr 2.30 | Oedfa Bregeth Gweinidog | Gofal y Te: Rhiannon a Carwen |
| 24 Ionawr 10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregeth | |
| 31 Ionawr 10.30 | Oedfa Bregeth: Gweinidog | |
| 7 Chwefror 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |

I'CH DYDDIADUR

4 Ionawr : Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol: Eglwys y Drindod 12.00yp-1.30yp
13 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
20 Ionawr : Cymdeithas Bethel am 2yp : Atgofion y Cyfarwyddwr Ffilm John Hefin MBE , cyn Bennaeth Drama BBC Cymru a'r gŵr a greodd "Pobl y Cwm".
20 Ionawr: Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn, Iwan Meical Jones, Ffotograffau John Thomas
26 Ionawr: Nos Fawrth Cwrdd Gweddi Misol yn festri Horeb 7.30
27 Ionawr : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch
27 Ionawr : Noson yn Horeb i godi arian i Lesotho (i'w gadarnhau)
6 Chwefror : Taith Dewi Sant : Cyfarfod i baratoi ar gyfer y Genhadaeth : Eglwys San Mihangel : 9.30-1.30. Croeso cynnes i bawb sydd am wybod mwy am y daith.

LLOFFION

Oedfa'r Nadolig : Diolch i'r plant, pobl ifainc a'u rhieni, am gyflwyno Stori'r Geni i ni yn ein hoedfa Nadolig. Cawsom fendith o fod yn yr oedfa a diolch yn fawr am eich gwaith yn paratoi.

Fflatiau Bethel : Fe fydd y fflat ar yr ail lawr ar gael i'w rhentu cyn bo hir. Cysylltwch â'r gweinidog os gwyddoch am rywun sydd â diddordeb.

Arddangosfa yng Nghanolfan y Celfyddydau am Gaethwasiaeth Heddiw: "Disposable People: Contemporary Global Slavery". Cyfle olaf i weld yr arddangosfa bwysig hon. Mae yno tan y 9fed Ionawr.